

Ara

*asiantaeth adfer dibyniaeth
Gwasanaeth Gamblo*



Ara

Triniaeth niwed gamblo
yng Nghymru

Cyflwyniad



Mae Ara wedi bod yn darparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â niwed gamblo yng Nghymru dros ddegawd, ac yn 2019 daeth yn Ddarparwr Triniaeth Gamblo Genedlaethol Cymru gyfan. Gwnaethom sefydlu'r gwasanaeth trin gamblo cyntaf i Gymru gyda 4 partner – Penyrenhys Caerdydd, 3Gs Merthyr, WCGADA Abertawe a CAB Casnewydd. Mae ein gwasanaeth triniaeth Cymraeg yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein holl ryngweithio â chleientiaid, asiantaethau partner, a rhanddeiliaid eraill, rydym yn hyrwyddo integreiddio lleol gyda ecosystem ehangach o gwasanaethau i bobl ledled Cymru.

Mae ein hymagwedd o fewn Cymru yn seiliedig ar y ddealltwriaeth nad yw dull ar gyfer y DU neu Lundain-ganolog yn arwain at y canlyniadau gorau i gymunedau lleol sy'n ddiwylliannol ac yn ieithyddol amrywiol. Yn ogystal ag ymyriadau ar sail lleoedd ledled Cymru (gyda chwnsela ac adnoddau Cymraeg), rydym yn sicrhau bod ein gweithwyr a'n grwpiau Profiad Byw



yng Nghymru yn gallu bwydo mewn i'r dylunio'r gwasanaeth, gan ei gwneud yn addas i wlad lle mae 35% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig, i ffwrdd o'r cytrefi trefol mawr lle mae gwasanaethau traddodiadol fel arfer yn ymgasglu. Mae ein ffyrdd hybrid o weithio yn cydnabod y gall isadeiledd trafndiaeth Cymru atal pobl rhag cymryd rhan mewn triniaeth oherwydd teithiau hir/ychydig neu ddim trafndiaeth.


Rydym yn gwybod nad yw niwed gamblo yn cael ei ddsbarthu'n gyfartal yng Nghymru. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig mewn mwy o berygl (fel gydag amrywiaeth o anghydraddoldebau iechyd), ac rydym yn canolbwyntio ein gwaith allgymorth yn unol ag ymchwil megis Mynegai Amlbrethiad Lluosog Cymru, a Mynegai GambleAware Mapiau Amddifadedd Lluosog. Personél a chyn-filwyr y lluoedd arfog; myfyrwyr prifysgol; Cymunedau De Asiaidd, y digartref- mae'r rhain a grwpiau agored i niwed eraill yng Nghymru yn ffurfio ein blaenoriaeth o ran codi ymwybyddiaeth a gwella hygyrchedd at driniaeth rydd a chyfrinachol.

Triniaeth a Chymorth

Yn y flwyddyn ariannol 2021-22, cefnogodd Ara 451 o gleientiaid yng Nghymru yn uniongyrchol gyda chwmsela strwythuredig, offer hunan eithrio, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch niwed gamblo. Mae'r ffigur yma yn 20% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol:

| Blwyddyn | Gamblwyr Cymru a'r rhair y wedi effeithio a gefnogir |
|----------|--|
| 2021-22 | 451 |
| 2020-21 | 374 |
| 2019-20 | 216 |
| 2018-19 | 138 |

Niferoedd triniaeth Ara Cymru





Triniaeth a Chymorth

Dangosodd adborth cleientiaid y byddai 100% o gleientiaid yn argymhell y gwasanaeth i rywun arall, ac roedd 98% yn hynod neu'n fodlon iawn â'r gwasanaeth a gawsant. Gan ddefnyddio offer sgrinio safonol y diwydiant, dangosodd cleientiaid sy'n ymwneud â chwnsela a gwelliant 11 pwynt ar gyfartaledd ar eu sgoriau llesiant a gwelliant o 15 pwynt ar eu sgoriau gamblo problem (gweler Adroddiadau Effaith am Fanylion Ara 2022). Mae gennym

swyddfeydd i gael triniaeth trwy Gymru (gan gynnwys Caerdydd, Caerfyrddin, Penybont, Maesteg, Aberpennar ac Abertawe) yn ogystal â chwnsela cynhadledd ffôn a fideo sydd ar gael lle mae hwn yn opsiwn sy'n cael ei ffafrio i gleientiaid. Mae cyngor a chwnsela yn Gymraeg ar gael ar draws y genedl, yn ogystal ag opsiynau Cymraeg a Saesneg am adnoddau gamblo ar ein gwefan.

Addysg Ac Atal

Cyflwynir rhaglen allgymorth Pobl Ifanc Ara ledled Cymru i addysgu pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol fel y gallant ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â gamblo, adeiladu gwytnwch, a gwybod ble i gael help.

Yn y flwyddyn 2021-22, addysgodd ein dau Swyddog Allgymorth Ieuenctid Cymru 3,577 o bobl ifanc a 1,110 o bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc ynghylch niwed gamblo, ac adeiladu gwytnwch o fewn cymunedau.



Mae'r gweithdai yn targedu pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed ac yn darparu sesiwn ryngweithiol sydd nid yn unig yn addysgu pobl ifanc am y risg sy'n gysylltiedig â gamblo ond yn hwyluso trafodaeth am ymddygiadau peryglus sy'n gysylltiedig â gamblo fel hapchwarae a masnachu. Fel arfer, hwylusir sesiynau drwy sesiynau ABCH mewn grwpiau ieuenctid ysgol neu gymunedol.

Mae ein gweithdai proffesiynol wedi'u hachredu gan CPD ac maent yn canolbwyntio ar adnabod ffactorau risg, arwyddion a symptomau problem gamblo; sut i ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn â gamblo a chyfeirio at help os oes angen. Rydym yn falch iawn o'r ymgysylltu gan dimau ieuenctid awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector, ac o ganlyniad i godi ymwybyddiaeth rydym wedi cael amryw atgyfeiriadau, nid yn unig pobl ifanc ond oedolion hefyd o ganlyniad i'n gwaith gyda thimau cefnogi teuluoedd.

Estyn Allan a Phrosiectau

Mae Ara yn rhedeg nifer o brosiectau partneriaeth yng Nghymru drwy nawdd y Symudiad Gamblo mwy diogel (mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cwnsela Beacon). Mae'r Mudiad Gamblo Mwy Diogel yn disgrifio arweinyddiaeth Ara a Beacon wrth ddatblygu mudiad ar lawr gwlad i adeiladu momentwm ar gyfer dull iechyd cyhoeddus cenedlaethol ym Mhrydain Fawr drwy adeiladu'r capasiti hwn yng Nghymru a Lloegr yn gyntaf- ar gyfer cymunedau, mewn cymunedau, gan gymunedau.

Mae'r Mudiad Gamblo Mwy Diogel wedi mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus drwy ddylunio rhaglenni a strategaethau sy'n gweithredu drwy dri lifer atal.

- Atal sylfaenol: atal ymddygiad problematig ac mewn perygl (h.y. mewn pobl nad ydynt yn gamblo, yn gamblo'n hamddenol, ac sydd â risg isel o niwed yn sgil gamblo)

- Atal eilaidd: lliniaru neu leihau niwed yn y rhai a nodwyd mewn perygl (h.y., pobl sydd mewn perygl cymedrol)

- Atal trydyddol: darparu triniaeth a chymorth i leihau effaith niwed gamblo (h.y., mewn pobl sy'n profi problem gamblo)

Prosiectau sydd ar hyn o bryd yn dod i ben yng Nghymru:

'Torri'r Sharam'

Cefnogaeth Gamblo niwed yng nghymunedau De Asia yng Nghymru

Mae Ara yn darparu cyngor anfeirniadol, diwylliannol sensitif a phriodol am ddim ar gael mynediad at gymorth arbenigol, cyfrinachol i unrhyw un sy'n profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo o fewn cymunedau De Asia yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu gweithdai addysg a hyfforddiant gamblo am ddim sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, sefydliadau cymunedol, gwirfoddolwyr, gweithwyr proffesiynol, arweinwyr ffydd ac ysgolheigion Islamaidd.

'Prosiect Chwech i Ddeg'

Cefnogi'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan gamblo eraill

Mae Cymru yn ardal beilot ar gyfer y prosiect Chwech i Ddeg: gwasanaeth cymorth newydd, am ddim a chyfrinachol wedi'i anelu at ddarparu cyngor cynhwysfawr ac eiriolaeth i'r 6 i 10 bobl sydd wedi'u heffeithio'n negyddol gan unigolyn sy'n dioddef gyda niwed gamblo. yn ogystal â chwrsela cyfrinachol am ddim drwy'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol, bydd gan y gleientiaid prosiect Chwech i Ddeg weithiwr cymorth penodol a fydd yn cynghori ac yn broceri ymgysylltu â'r gymuned gydag ystod o sefydliadau ar ran y cleient. Ymhlith y meysydd cymorth yw tai, cyngor ariannol, iechyd meddwl a chorfforol, cymorth cyfreithiol a meithrin perthnasoedd a gwydnwch, er mwyn gwella ansawdd bywyd.



‘Bet Gallwch Helpu’

Cymorth Cyntaf Ymarferol ar gyfer Niwed sy’n Gysylltiedig â Gamblo


Nod rhaglen hyfforddi ‘Bet Gallwch Helpu’ (BYCH) yw addysgu dysgwyr, gan ddefnyddio set achrededig, unffurf, a chyson o negeseuon ynghylch Niwed cysylltiedig â Gamblo (GRH) a’r mater cysylltiedig, trwy naws sy’n pwysleisio’r agwedd Iechyd Cyhoeddus. Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cwnsela Beacon ac Ymddiriedolaeth RCA yn yr Alban, mae canlyniad y cwrs llawn yn wobwr Lefel 2 wrth fynd i’r afael â niwed sy’n gysylltiedig â gamblo (wedi’i achredu gan y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd a’i rheoleiddio gan Ofqual)



‘Arestio Problem Gamblo’

Lleoliadau Cyfiawnder Troseddol

Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cwnsela Beacon yn y Gogledd-orllewin, mae Ara yn creu fframwaith ymyrraeth gynnar ar draws Cymru sy’n ymwneud â niwed a throseddoldeb cysylltiedig â gamblo, yn benodol ar bwynt arestio, ond hefyd drwy gydol y broses o system gyfiawnder troseddol. Mae’r canlyniadau allweddol yn cynnwys cyflwyno niwed gamblo sy’n sgrinio mewn i ystafelloedd ddalfa, ac uwchsgilio’r rhai sy’n gweithio ym maes cyfiawnder troseddol i adnabod arwyddion niwed sy’n gysylltiedig â gamblo.



Mae 165 o staff wedi cael eu hyfforddi hyd yma, yn cynnwys:

- Recriwts PCSO newydd yng Ngwent
- Ffederasiwn Heddlu De Cymru yn hyfforddi ac yn sgwrsio gyda Dyfed a Gwent
- Hyfforddiant Swyddogion Ystafell Dalfa Dyfed Powys a archebwyd ar gyfer hydref 2022
- Ymgysylltu parhaus â Gwasanaeth Prawf Cymru
- Dyffodol (Heddlu De Cymru)

Arweinyddiaeth Meddwl

Mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd o ran mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus o gamblo, lle mae'r pwyslais ar strategaethau atal i fyny'r afon ar gyfer gamblwyr sydd ddim yn broblem, yn hytrach na phroblem triniaeth gamblo. Mae Ara yn cytuno bod mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus o gamblo yn hollbwysig oherwydd bod:

- Mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn gymhleth, gan gynnwys niwed ariannol, niwed i berthynas, niwed emosiynol, niwed i iechyd corfforol, niwed diwylliannol, llai o berfformiad yn y gwaith/astudio, a gweithgarwch troseddol.
- Gall unigolion, teuluoedd, a chymunedau gael eu heffeithio gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.
- Mae ymddygiad gamblo a niwed yn cael eu dylanwadu gan amrywiaeth eang o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, sefydliadol, ac amgylcheddol.



Asiantaethau Partner

Mae Ara yn cymryd rhan mewn nifer o fforymau gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grŵp Tasg a Gorffen ar Niwed Cysylltiedig â Gamblo (wedi'i gadeirio gan Y Prif Swyddog Meddygol Frank Atherton), a'r Grwpiau Trawsbleidiol ar Niwed Cysylltiedig â Gamblo (dan gadeiryddiaeth Jenny Rathbone MS). Drwy ein gwaith partneriaeth yng Nghymru ein nod yw codi ymwybyddiaeth o niwed gamblo, a hyrwyddo hygyrchedd ffrithiant i driniaeth. Mae asiantaethau partner yr ydym wedi ymgysylltu â nhw yn cynnwys:

Asiantaethau

Partner:

- Timau o amgylch y teulu
- Teuluoedd yn Gyntaf (ar draws Cymru)
- Dechrau'n Deg (ar draws Cymru)
- Llwyfan
- Gwasanaethau ieuencid awdurdodau lleol
- Gwasanaeth Ieuencid Caerdydd
- ESYT – Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig
- Prifysgol Caerdydd
- James Davis AS ar gyfer Clwyd
- Carolyn Harris AS ar gyfer Dwyrain Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Abertawe – Prosiect CONNECT
- Prifysgol Aberystwyth
- Barod
- Shelter Cymru
- CEM Wysg
- CEM Parc
- Cymunedau am Waith
- Y Wallich
- CAIS
- Hafal
- Swyddogion Beat Ysgol (hyfforddi pob heddwys yn yr ysgol ym mhob un o'r 4 llwyfan)
- CEM Parc YOI
- Gweithredu dros Blant
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Penybont
- Gwent – GAVO
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
- Interlink – Cwm Rhondda, RhCT
- Abertawe – SCVS
- Torfaen – TVA
- Merthyr – VAMT – 6i10 yn cyflwyno yn Fforwm Lles yr wythnos nesaf
- Powys – PAVO
- Sir Benfro – PAVS
- Grŵp Atal Hunanladdiad a Hunan Niwed Gwent
- Grŵp Atal Hunanladdiad a Hunan Niwed Powys
- Ymddiried Trussell
- Grŵp Lluoedd Arfog Elusen Cymru Gyfan
- MaPs <https://moneyandpensionservice.org.uk/tag/wales/>
- Llywodraeth Leol Caerffili
- Cyngor ar Bopeth – proses atgyfeirio uniongyrchol trwy Refernet
- Adferiad
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro
- Aneaurin Bevan HB
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Prof Simon Dymond
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Gwent
- Sefydliad Jac Lewis (Yn cefnogi teuluoedd sydd wedi colli rhywun annwyl trwy hunanladdiad)



Yn Ebrill 2022 fe deithion ni o gwmpas Gogledd Cymru ar Sioe Deithiol Niwed Gamblo, cwrdd â'r cyhoedd a phartneriaid yn Llandundo, Y Rhyl a Wrecsam i ledaenu'r gair nad yw pobl sy'n dioddef niwed yn unig. Cawsom gyfarfod â chynrychiolwyr o ASau lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol, banciau, banciau bwyd, yr heddlu ac asiantaethau eraill y trydydd sector yn ogystal â dosbarthu taflenni a deunyddiau hunangymorth i aelod sydd â diddordeb. Cysylltwyd â phob meddygfa yng Nghymru ac anfonwyd gwybodaeth ynghylch niwed gamblo.

O fewn y system Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, rydym wedi hyfforddi dros 160 o staff hyd yma yn 2022, gyda llawer mwy yn y dyddiadur. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Recriwts PCSO newydd yng Ngwent
- Ffederasiwn Heddlu De Cymru yn hyfforddi ac yn sgwrsio gyda Dyfed a Gwent
- Hyfforddiant Swyddogion Ystafell Dalfa Dyfed Powys a archebwyd ar gyfer hydref 2022
- POBL (<https://www.poblgroup.co.uk>)
- OOCN Gwent Hyfforddiant
- OOCN yn cael ei sefydlu ar gyfer Heddlu De Cymru & Gogledd Cymru
- Ymgysylltu parhaus â Gwasanaeth Prawf Cymru